**GWYBODAETH AM DDIOGELWCH BATRI**

Gall babanod a phlant ifanc ddioddef anaf difrifol os ydyn nhw'n llyncu batris ceiniog/botwm, neu'n eu gwthio i'w ffroenau neu glustiau. Gall hyn achosi anaf difrifol a dylid ei drin fel argyfwng meddygol.

**Awgrymiadau ymarferol i rieni leihau'r risg o blant yn llyncu batri:**

Storiwch yr holl fatris bach allan o olwg a chyrhaeddiad plant ifanc.

Wrth agor pecyn sy'n cynnwys sawl batri botwm/ceiniog, gwnewch yn siŵr na all plant gael mynediad at y batris sy'n weddill yn y pecynnau agored.

Gwnewch yn siŵr bod blychau batri unrhyw gynnyrch yn y cartref ar gau yn ddiogel fel na all plant eu hagor, a/neu bod y cynnyrch yn cael ei storio y tu hwnt i gyrraedd plant ifanc.

Ceisiwch osgoi storio batris bach mewn blychau tabledi neu wedi'u gosod ochr yn ochr â meddyginiaeth. Mae eu siâp a'u maint yn ei gwneud hi'n hawdd i'w camgymryd am feddyginiaeth.

**Beth i'w wneud pan fydd eich plentyn wedi llyncu batri botwm/ceiniog:**

Os bydd batri yn cael ei lyncu, ewch i gael sylw meddygol ar unwaith yn eich Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys leol.

Peidiwch â gadael i'ch plentyn fwyta nac yfed nes y gall pelydr-X bennu a oes batri yno.

Os oes dal gennych becyn y batri neu'r ddyfais sy'n cynnwys y batri, ewch â nhw gyda chi i helpu'r meddyg i nodi'r math o fatri a'r cemegau.

Addaswyd gan *The British and Irish Portable Battery Association* (BIPBA)

**www.capt.org.uk/button-batteries**

**https://buttonbatterysafety.com/general-risks/**

**Ionawr 2020**